| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Dyddiad** | Dydd Mercher 15 Hydref 2025 |
| **Amser** | 2p.m. hyd 4p.m. |
| **Lleoliad** | Timau Microsoft |

**NODIADAU'R CYFARFOD**

**Presennol**

### Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Mr R Davies (RD) – Cadeirydd | Rheolwr Grŵp – Strategaeth, Perfformiad a Chymorth |
| Ms E Giles (EG) – Ysgrifennydd | Uwch Swyddog Gwasanaethau Disgyblion |
| Y Cyng M Jones (Y Cyng MJ) | Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |

### Cynrychiolydd Ysgolion (Cymunedol a Gwirfoddol Rheoledig)

| | |
|---|---|
| Mrs K John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd, Bracla |

### Cynrychiolydd Ysgolion (Gwirfoddol a Gynorthwyir)

| | |
|---|---|
| Mr A Howells (AH) | Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath |

### Cynrychiolydd yr Esgobaeth Gatholig

| | |
|---|---|
| Mr P Knight (PK) | Cyfarwyddwr Ysgolion, Archesgobaeth Caerdydd |

### Cynrychiolydd Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Ms C Werrett (CW) | Arweinydd Gweithredol Addysg yr Esgobaeth dros Esgobaeth Llandaf |

### Aelod Ychwanegol

| | |
|---|---|
| Ms C Christy (CC) | Swyddog Derbyn i Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

**Ymddiheuriadau:**

### Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Ms R Garner (RG) | Arweinydd ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) y Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a CMMI (Nam Meddygol ac Echddygol Cymhleth) |
| Ms B Davies (BD) | Rheolwr Gofal Plant |

Cynrychiolwyr Ysgolion (Cymunedol a Gwirfoddol Rheoledig)

Ms D Davies (DD) Pennaeth Gweithredol, Ysgol y Ferch o'r Sgêr

**Absennol heb ymddiheuro:**

Cynrychiolwyr rhieni lywodraethwyr

Ms C Bloomfield (CB) Rhiant lywodraethwr, Coleg Cymunedol y Dderwen

Ms R Owens (RO) Rhiant lywodraethwr, Ysgol Heronsbridge

Cynrychiolwyr y Gymuned

Mr S Sweeney (SS) Llywodraethwr Cymunedol, Ysgol Gynradd Tremain

| Rhif yr eitem | Eitem | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|---|
| 1 | Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau | Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau. |
| 2 | Ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifenydd am 2025-2026 | Gofynnodd EG am enwebiadau ar gyfer y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Ysgrifennydd.<br><br>Cynigiwyd AH ac RD fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Cynigiwyd EG yn Ysgrifennydd. Cafodd y cynnig ei gymeradwyo gan bawb oedd yn bresennol. Derbyniodd AH, RD ac EG y swyddi am flwyddyn ysgol 2025-2026. |
| 3 | Aelodaeth o'r fforwm am flwyddyn ysgol 2025-2026 | Cyfeiriodd EG at Atodiad B, sef y ddogfen oedd yn rhoi manylion aelodaeth arfaethedig y fforwm am 2025-2026.<br><br>Tynnodd EG sylw at y newidiadau o aelodaeth y fforwm y llynedd.<br><br>Mae RP – Pennaeth, Ysgol Gyfun Bryntirion, wedi symud i swydd newydd fel Partner Gwella Ysgolion ar gyfer yr awdurdod lleol ac mae angen dod o hyd i gynrychiolydd newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae AR - Cyfarwyddwr Ysgolion Archesgobaeth Caerdydd, wedi ymddeol, ac estynnwyd gwahoddiad i PK, sydd wedi ymgymryd â'r swydd hon, i ymuno â Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr fel aelod newydd.<br><br>EG i ddiweddaru Aelodaeth Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr yn Atodiad A i adlewyrchu unrhyw newidiadau.<br><br>Gofynnodd KJ am rywun i gymryd lle RG tra byddai ar secondiad.<br><br>Nododd EG fod angen cynrychiolydd newydd i ysgolion uwchradd i gymryd lle RP.<br><br>Cododd EG bryder ynghylch diffyg presenoldeb cynrychiolwyr rhieni lywodraethwyr a llywodraethwyr cymunedol.<br><br>AH i ysgrifennu at y cynrychiolwyr hynny sydd ddim yn mynychu. |
| 4 | Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2025 a'r materion oedd yn codi | Cafodd cofnodion 4 Chwefror 2025 eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.<br>. |
| 5 | Rhaglen Waith ddrafft 2025-2026 | Cyflwynodd EG y rhaglen waith ddrafft oedd yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r fforwm, fel y cawsant eu mynegi yn y Cod Derbyn i Ysgolion, a chynigiodd y ffyrdd y gallai'r fforwm gyflawni'r cyfrifoldebau hynny ym mlwyddyn ysgol 2025-2026. Tynnwyd sylw at y ffaith fod dau gyfarfod wedi eu cynnig am y flwyddyn er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau statudol y fforwm gyda thrydydd un wedi ei drefnu ar gyfer tymor yr haf.<br><br>Tynnodd EG sylw at y ffaith fod rhai agweddau ar y rhaglen waith yn ddibynnol ar dderbyn gwybodaeth oddi wrth yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, er |

| | | |
|---|---|---|
| | | enghraifft cyfraniadau ar gyfer Prosbectws Dechrau Ysgol. |
| 6 | Polisi drafft Derbyn i Ysgolion 2027-2028 – yr awdurdod lleol | Amlinellodd EG mai'r ddogfen sylfaenol oedd polisi 2026-2027, gyda'r holl newidiadau a gynigiwyd ar gyfer 2027-2028 wedi eu holrhain. Y prif newid yn y polisi hwn oedd cynnwys manylion ynghylch y Trefniadau Derbyn Cydlynol, gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf y byddant yn dod i rym. Mae hyn wedi ei gofnodi dan adran 1.3.<br><br>Mae newidiadau hefyd yn y dyddiadau ar gyfer y rowndiau derbyn statudol gan fod y Trefniadau Cydlynol Derbyn i Ysgolion bellach yn penderfynu pryd y bydd yn rhaid i'r rowndiau gau a phryd y bydd yn ofynnol i rieni yn awr gadarnhau eu bod yn derbyn/gwrthod y lleoedd a gynigiwyd.<br><br>Gwahoddwyd cwestiynau a thrafodaeth ynghylch unrhyw rai o'r newidiadau arfaethedig ond nodwyd mai bychan, megis dyddiadau, oedd llawer o'r newidiadau.<br><br>Newidiwyd yr holl ddyddiadau i adlewyrchu 2027-2028.<br><br>Cadarnhaodd EG y bu newid i'r Niferoedd Derbyn a gyhoeddwyd (PAN) ar gyfer 2027-2028, oedd ar gyfer Ysgol Gyfun Bryntirion lle bu cynnydd o 210 i 221.<br><br>Hysbysodd AH yr aelodau fod y Nifer Derbyn a gyhoeddwyd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath yn cael ei ailystyried, gyda phosibilrwydd iddo gael ei gynyddu.<br><br>Hysbysodd EG y fforwm unwaith y byddent wedi cytuno ar y polisi derbyn drafft, y câi ei anfon at yr esgobaethau, yr awdurdodau lleol cyfagos ac at yr holl gyrff llywodraethol ar gyfer ymgynghori dros gyfnod o fis, gyda'r bwriad iddo gael ei gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ym mis Ionawr 2026 o bosibl i gael ei benderfynu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gofynnodd y Cyng MJ am eglurder ynghylch y ffordd y câi unrhyw atebion a dderbynnid i'r ymgynghoriad eu rhannu gyda'r grŵp, ac a gâi'r polisi ei gyflwyno i'r Cabinet i'w nodi ynteu ei gymeradwyo.<br><br>Cadarnhaodd RD y câi unrhyw atebion eu rhannu gydag aelodau'r fforwm drwy e-bost, ac y byddai angen i'r polisi fynd i'r Cabinet i gael ei gymeradwyo.<br><br>Gwahoddwyd yr aelodau i wneud sylwadau ar unrhyw rai o'r newidiadau arfaethedig a gofynnwyd a oedd y fforwm yn cytuno gyda'r polisi. Cytunodd y fforwm ar y polisi drafft.<br><br>EG i gyhoeddi'r polisi ar gyfer ymgynghoriad. |
| 7 | Trefniadau cydlynol drafft derbyn i ysgolion 2028-2029 | Amlinellodd EG mai'r ddogfen sylfaen ar gyfer Trefniadau Cydlynol Derbyn i Ysgolion 2028-2029 oedd trefniadau 2027-2028 ond gyda'r dyddiadau wedi eu newid yn unol â hynny. Nid oes newidiadau eraill ar hyn o bryd gan nad yw dyddiadau 2027-2028 wedi mynd yn 'fyw' ac felly nid ydym yn gwybod am unrhyw newidiadau pellach y bydd angen efallai eu cymryd i ystyriaeth.<br><br>Fel y cyfeirir yn y canllawiau '*Nid oes gofyniad i ymgynghori ynghylch cynllun cydlynol ar gyfer blynyddoedd dilynol oni bai bod y cynllun yn sylweddol wahanol i'r cynllun a fabwysiadwyd ar gyfer y flwyddyn cynt, neu fod yr awdurdod lleol heb ymgynghori ynghylch cynllun y mae'r awdurdod lleol wedi'i fabwysiadu yn y chwe blynedd flaenorol*.'<br><br>Er ei bod yn ofynnol i'r awdurdod lleol fod wedi llunio a mabwysiadu trefniadau 2028-2029 erbyn 1 Ionawr 2026.<br><br>Gofynnodd RD sut y byddai'r trefniadau hyn yn gweithio i Ysgol Esgob Llandaf yng Nghaerdydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cadarnhaodd EG nad yw'r trefniadau cydlynol Derbyn i Ysgolion yn cynnwys ysgolion y tu allan i'r awdurdod lleol.<br><br>Nododd CW y diffyg dewisiadau i ysgolion uwchradd yr Eglwys yng Nghymru. |
| 8 | Adroddiad Blynyddol Drafft Fforwm Derbyn 2024-2025 | Dywedodd EG nad oedd y templed ar gyfer adroddiad blynyddol y fforwm wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru eto ond nad oes newid wedi bod i'r fformat dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac felly bod adroddiad blynyddol drafft wedi cael ei ddarparu yn seiliedig ar hyn. Yn unol ag amserlenni blaenorol ar gyfer darparu adroddiad blynyddol y fforwm ar gyfer 2024-2025 i Lywodraeth Cymru, mae'n debygol y bydd angen yr adroddiad erbyn diwedd mis Tachwedd.<br><br>Rhoddodd EG ddiweddariad ar lafar gan fod y wybodaeth ynghylch lleoedd gwag bellach wedi dod i law, sy'n cwblhau'r adroddiad:<br>Lleoedd Gwag Cynradd - 20%<br>Lleoedd Gwag Uwchradd – 19%<br><br>Nododd RD ei bod yn anarferol bod nifer uwch o leoedd gwag ar lefel Gynradd, gan mai Ysgolion Uwchradd sydd wedi cario'r nifer uwch o leoedd gwag yn y gorffennol.<br><br>Nododd AH y wybodaeth a ddarparwyd ynghylch nifer y trosglwyddiadau a dderbyniwyd.<br><br>Rhannodd EG wybodaeth bellach ynghylch nifer y trosglwyddiadau uwchradd ym mlwyddyn ysgol 2024-2025 a'r rhesymau dros y trosglwyddiadau.<br><br>Gofynnodd AH am i'r wybodaeth hon gael ei darparu ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a'i hychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.<br><br>Hysbysodd RD yr aelodau, o ran derbyniadau/trosglwyddiadau yn ystod y |

| | | |
|---|---|---|
| | | flwyddyn, fod y trefniadau derbyn gohiriedig wedi cael eu tynnu'n ôl o'r blaen oherwydd yr effaith ar bresenoldeb a Phlant yn Colli Addysg.<br><br>Holiodd RD a oedd unrhyw adborth wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar ôl derbyn yr Adroddiad Blynyddol.<br><br>Cadarnhaodd EG ac CC na dderbyniwyd adborth.<br><br>Gofynnodd y Cyng MJ pa adborth fyddai ei angen.<br><br>Gofynnodd RD am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru fod y fforwm yn bodloni eu gofynion statudol.<br><br>EG i ofyn am adborth gan Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r adroddiad. |
| 9 | Diweddariad Grŵp Derbyniadau Cymdeithas Cyfarwyddwr Addysg Cymru | Dywedodd EG wrth yr aelodau am yr eitemau trafod canlynol yng nghyfarfod Grŵp Derbyniadau Cymdeithas Cyfarwyddwr Addysg Cymru ar 26 Medi 2025.<br><br>Roedd y diweddariadau gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:<br><br>Mae'r ymgynghoriad ynghylch y Cod Trefniadaeth Ysgolion bellach wedi dod i ben ac mae crynodeb o'r ymatebion wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau mawr i'r drafft. Bwriedir cyhoeddi'r amserlen arfaethedig ym mis Rhagfyr gyda'r bwriad iddi ddod i rym ar 1 Ionawr.<br><br>Gofynnodd LIC am ymateb gan yr awdurdodau lleol hynny nad oeddent wedi ymateb eto i'r cais am ddata ynghylch nifer a chost apeliadau yn flynyddol. Cadarnhaodd EG fod gwybodaeth ynglŷn ag apeliadau dros y bum mlynedd ddiwethaf wedi cael ei hanfon at Lywodraeth Cymru ar 15 Medi 2025. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r Cod Derbyniadau Ysgol newydd yn nwylo tîm cyfreithiol Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, a bwriedir ymgynghori arno erbyn diwedd y flwyddyn hon am 12 wythnos. Oherwydd etholiadau ni ellir cyflwyno'r cod tan fis Mai 2026, yna mae'n rhaid iddo orwedd am 40 diwrnod pan fydd y Senedd yn weithredol. Y dyddiad targed ar gyfer y cod newydd - Medi 2026. |
| 10 | Unrhyw fater arall | Ni chodwyd unrhyw bwyntiau. |
| 11 | Dyddiad y cyfarfod nesaf | Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2026<br><br>Diolchodd RD i bawb oedd wedi dod i'r cyfarfod am eu presenoldeb a'u cyfraniadau. Daeth y cyfarfod i ben am 3.15p.m. |

**CAMAU GWEITHREDU**

| Rhif y cam gweithredu | Y cam gweithredu | Gan bwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| 1 | **Aelodaeth fforwm 2025-2026**<br><br>Diweddaru'r aelodaeth i adlewyrchu'r Cadeirydd, Is-gadeirydd newydd ac unrhyw newidiadau eraill<br><br>Gofyn am rywun i gymryd lle RG.<br><br>Gofyn am gynrychiolydd newydd i fynychu ar ran yr ysgolion uwchradd.<br><br>Ysgrifennu at y cynrychiolwyr nad ydynt yn mynychu cyfarfodydd. | EG<br><br>EG<br><br>AH<br><br>AH | 3 Chwefror 2026 |
| 2 | **Polisi Derbyn i Ysgolion Drafft 2027-2028 – yr awdurdod lleol**<br><br>Y Polisi i gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad. | EG | 31 Hydref 2025 |
| 3 | Adroddiad Blynyddol Drafft y Fforwm Derbyn 2024-2025<br><br>Gofyn i Lywodraeth Cymru am adborth wrth gyflwyno'r adroddiad.<br><br>Ychwanegu gwybodaeth ynghylch trosglwyddiadau ysgol fel eitem ar yr agenda. | EG<br><br>EG | 3 Chwefror 2026 |